

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Hydref 31ain 2016 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **10/16 PRESENNOL:** Yn y gadair Cyng. Adrian Thomas, Cynghorwyr: Jamie Ayres, John Crossley, Brenda Jones, Christopher Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Dilwyn Smith, John Wigley. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyng. Sir K Howell, Cyfieithydd ac aelodau o'r cyhoedd
2. **10/16 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Delyth Evans, Nesta Jones, Caroline Roberts,
3. **10/16 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Cyng. J Crossley – 6.7.i 03/15 Materion yn Codi
4. **10/16 HEDDLU:** Ymddiheiriad. Cyngor yn dymuno i'r Clerc atgoffa'r heddlu am ddod a'r peiriant 'Speed Awareness' i Waungilwen
5. **10/16 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Medi 26ain 2016 a'u cael yn gywir -
Cynigydd – Cyng. M Phillips Eilydd – Cyng. J Wigley
6. **10/16 MATERION YN CODI :**
 - 12.i.01/14. b)Audio Trail – dim i adrodd gan fod C Roberts ddim yn y cyfarfod
 - 6.i. Pwyllgor y Parc – y ddogfen drafft wrth y cyfreithiwr wedi cyrraedd, un copi wedi ei roi i'r clwb pêl droed a'r llall wedi ei roi i gadeirydd y Cyngor edrych drosto erbyn y cyfarfod nesaf.
 - 7.xv.05/16 – Caeau Canmlwyddiant – Rhodri Edwards wedi cytuno dod i'r Cyngor i ateb cwestiynau yn y cyfarfod nesaf.
 - 10.ii.07/16 Toiledau Parc Puw – e-bost wedi dod oddi wrth Rhys Davies o'r Cyngor Sir yn olrhain y gwaith maent yn bwriadu gwneud ar y toiledau cyn i'r cyngor cymryd hwy drosodd. Gofynnwyd i Claire Rees am rhestr o enwau'r bobl oedd ganddi yn barod i agor a chau ac edrych ar ôl y toiledau.
 - 10.i.09/16 Parc Pentrecwrt – gofyn i'r Cyngor Sir am y costau o redeg y safle.
 - 10.ii.09/16 – Arolygu Golau Nadolig Pont Tyweli - dim ond un cwmni oedd wedi ymateb a phris – cytunwyd i'r Clerc fynd am y pris isaf.
7. **10/16 GOHEBIAETH:**
 - i. CSG – Apêl Teganau Nadolig
 - ii. CSG – Is-Adran Priffyrdd a Trafnidiaeth – Enwau arwyddion pentrefi – cytunwyd mynd gyda'r sillafu presennol
 - iii. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 26.09.2016 - 30.09.2016 – *cylchlythyrwyd*
 - iv. e-bost – Gwobrau Chwaraeon Sir Gâr - 2016 – *cylchlythyrwyd*
 - v. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 03.10.2016 - 07.10.2016 – *cylchlythyrwyd*
 - vi. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 10.10.2016 - 14.10.2016 – *cylchlythyrwyd*
 - vii. e-bost – CSG – Rhys Davies – Toiledau Parc Puw
 - viii. e-bost – Dweud eich Dweud - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
 - ix. e-bost – Ceisiadau Cynllunio 17.10.2016 - 21.10.2016 – *cylchlythyrwyd*
 - x. e-bost – ULIC – *Welsh Treasury News* – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xi. e-bost – Parish Online – latest news, top tips and new tools – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xii. e-bost – One Voice Wales Annual Report – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xiii. e-bost – ULIC – Hyfoddiant Un Llais Cymru – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xiv. e-bost – CSG – Bwriad gan BT i gael gwared ar giosgau ffonau talu – *yn dilyn trafodaeth cytunwyd dylai'r Clerc ffindio allan faint fyddai'r yswiriant yn fwy pe baent yn mabwysiadu rhain*
 - xv. e-bost – ULIC – Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xvi. e-bost – ULIC – Ysgrifennydd cabinet yn cynnig datblygiadau cadarnhaol iawn ar gyfer y sector – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xvii. e-bost – Gwytnwch Cymunedol Sir Gâr – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xviii. e-bost – Alun Davies – Ambiwylans Awyr Cymru – lle newydd yn Dafen, Llanelli ac yn derbyn ymweliadau
 - xix. Ail brisio Trethi Anomestig (Busnes) 2017 / Non Domestic (Business) Rates Revaluation 2017
 - xx. CSG – Mesurau Diogelwch Ffordd Arfaethedig i'r A484 Rhos/Saron – gwelwyd mapiau yn olrhain y newidiadau
 - xxi. e-bost – Eiriol – Cylchlythyr - *cylchlythyrwyd*
 - xxii. CSG – Newidiadau i gasgliadau sbwriel ac ailgylchu yn y Sir Gâr - *nodwyd*
 - xxiii. Caniatâd Datblygiad Cyswllt Trydan Coedwig Brechfa
 - xxiv. Western Power Distribution – Cysylltiad di fetr dros dro i Olau Nadolig Pont Tweli 2016/17
 - xxv. Eleri Thomas & Co - dogfen ddrafft – *deliwyd yn Materion yn Codi*
 - xxvi. CSG – Caniatâd Addurniadau Tymhorol Pont Tweli – *ffurflenni priodol i'w llenwi*
 - xxvii. e-bost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 24.10.2016 - 28.10.2016
 - xxviii. e-bost – arolwg o'r safonau cenedlaethol ar gyfer y cynghorau – *cylchlythyrwyd*
 - xxix. e-bost – Digwyddiad Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Dementia 1 Tachwedd yn yr Amgueddfa Wlân – *cylchlythyrwyd*
 - xxx. e-bost - Ageing Well walking survey for neighbourhoods – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xxxi. e-bost - Swydd wag - Comisiynydd Etholiadol, Cymru – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
 - xxxii. ULLC – Cyfarfod Ardal Sir Gâr 15/11/2016, Gwesty'r Castell, Llanymddyfri 7yh

8. 10/16 CYNLLUNIO

Cais Ymgynghori llawn /Full Planning

- W/34490 – Mrs S J Evans – tir ochr arall i Blaentir, Bancyffordd, SA44 4RY – amrywiaeth ar amodau 2 ar W/28620 (ymestyn hyd yr amser o gyflwyniad cais materion ar gadw) – *dim gwrthwynebiad*
- W/34526 – Phil Lowndes – Gilfachlas Farm, Lamb Lane, Rhos SA44 5EE – adeiladu menaj ceffylau gyda ffens o’i gwmpas a goleuadau addas ar gyfer defnydd yn y Gaeaf. Mae’r menaj ar gyfer defnydd personol yn unig – *dim gwrthwynebiad*
- W/34548 – West Wales Homes Ltd – Mr M Baggott – cymeradwyaeth o amodau 2,3,4,5 a 7(materion ar gadw i amlinelliad W/29930 ar gyfer datblygiad tai, 1 tŷ) – *ffindio mas beth yw’r amodau*
- W/34566 – Mr & Mrs Jones, Plot 4, Hafod Hedd, Saron SA44 5DR – adeiladu tŷ ar wahân a sied gardd ynghyd a lleoli carafán dros dro tra bod yr adeiladu yn mynd ymlaen – *dim gwrthwynebiad*
- W/34557 – Mr & Mrs H Evans, Geryffynnon, Saron SA44 5DU – dargadwad iard contractwr amaethyddol ar gyfer storio peiriannau ac offer – *dim gwrthwynebiad*
- W/34558 – Mr & Mrs S Drewett, tir yn Fron Rafel, Velindre SA44 5YL – lleoli 5 llain carafanau a’r gwaith isadeiledd megis ffordd fynediad a phwyntiau trydan – *dim gwrthwynebiad*

9. 10/16 MATERION ARIANNOL

a. Grant Thornton – Awdit Gorffenedig o gyfrifon hyd diwedd blwyddyn 31/03/2016

b. Anfonebau

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 31/10/2016£61.20
- ii .HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 31/10/16 £8.75
[cafwyd caniatâd i dalu’r ddau uchod fel daw’r taleb fewn]

Arian yn y Banc ar 12/10/2016.....£19,870.78

c. S/O

Cyflog y Clerk£433.33

ch. Cais am Gefnogaeth Ariannol

Marie Curie – *dim gan nad yw’n lleol*

Macmillan – *dim “ “ “ “ “ “*

Llangollen Eisteddfod 2017- *dim gan nad yw’n lleol*

CISS – *dim gan nad yw’n lleol*

10. 10/16 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Dim

11. 10/16 SYLWADAU’R CYNGHORWYR:

- i. Cyng B Jones – a. Fan Llyfrgell – Clerc i ysgrifennu i ddatgan anffodlonrwydd bod y fan ddim yn mynd i ddod i’r pentref mwyach.
b. Lon Sipsiwn – Clerc i gysylltu a’r Cyngor Sir
- ii. Cyng K Howell – wedi ysgrifennu i’r llyfrgell yn barod – Clerc i ysgrifennu hefyd
- iii. Cyng J Wigley – a. da gweld bod y tyllau ar Pont Henllan wedi cael ei trwsio
b. mae’r ‘cats eyes’ yn eisiau o Tŷ Coch i Llangeler
- iv. Cyng D Smith – a. gan bod bylbiau yn y lampiau wedi eu newid i rai economi a ddylai’r cyngor gael gostyngiad yn y defnydd o’r ynni

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul ar nos Lun Tachwedd 28ain 2016 am 7.30 yh

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.45yh

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

